Astudiaeth achos Ailgylchu yn y Gweithle: addysg

Ysgol Gynradd Pontyberem, Sir Gaerfyrddin

Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Pontyberem yng nghanol Cwm Gwendraeth a rhwng Caerfyrddin a Llanelli. Agorwyd yr ysgol ym Mhontyberem ym mis Medi 1984. Mae gan yr ysgol tua 240 o ddisgyblion yn derbyn addysg llawn-amser.

Darlun: Ysgol Gynradd Pontyberem

Rhoi ailgylchu yn y gweithle ar waith

Gwasanaethir yr ysgol gan CWM Environmental, cwmni sy'n eiddo i'r cyngor, sy'n darparu casgliadau ailgylchu, bwyd a gwastraff cyffredinol ar wahân, ynghyd â mentrau a chyfleusterau Economi Gylchol eraill (gyda ffocws ar atgyweirio ac ailddefnyddio). Cesglir ailgylchu a gwastraff bwyd yn wythnosol ochr yn ochr â bin gwastraff cyffredinol llai, sy'n adlewyrchu ymdrechion yr ysgol i hybu a blaenoriaethu negeseuon ailgylchu gyda disgyblion a staff.

> Mae'r plant a'r staff wir wedi cofleidio ailgylchu (yn y gweithle). Mae gennym gyngor eco ysgol, ein llain llysiau ein hunain (a ddefnyddir i addysgu disgyblion am fwyd ac o ble y daw) ac rydym yn cefnogi ein dysgwyr i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd.
>
> Indeg Griffiths, Pennaeth

Darlun: Arddangosfa gwybodaeth ailgylchu yn yr ysgol

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i WRAP ac ni cheir ei hatgynhyrchu na'i hailddefnyddio heb ganiatâd.

Ymateb i’r gyfraith ailgylchu yn y gweithle

Cyn i'r gyfraith ddod i rym, bu CWM Environmental yn gweithio gyda'r ysgol i resymoli trefniadau gwastraff cyffredinol (gan arwain at gael gwared ar fin 1100L), gan gefnogi ymdrechion ailgylchu parhaus. Bellach dim ond biniau ailgylchu sydd gan ystafelloedd dosbarth gyda biniau gwastraff cyffredinol wedi'u tynnu (dim ond mewn coridorau maen nhw bellach) ac mae un bin allanol 660L bellach yn ei le a gesglir yn wythnosol.

Cynhyrchu a rheoli gwastraff

Mae gwastraff bwyd wedi bod yn cael ei gasglu ar wahân yn yr ysgol ers Ionawr 2022, gyda bwcedi / cadis yn cael eu defnyddio i ddal bwyd yng nghegin yr ysgol, ystafell y staff ac mewn mannau mynediad i’r maes chwarae. Mae gosod cadis allan yn ystod amser egwyl wedi bod yn arbennig o effeithiol fel modd o gasglu gweddillion ffrwythau.

Darlun: Cadis gwastraff bwyd wedi’u gosod mewn meysydd chwarae

Lleihau deunydd pacio untro

Mae’r ysgol wedi symud oddi wrth roi llaeth i blant ifanc mewn cartonau bach. Mae llaeth bellach yn cael ei weini mewn cwpanau amldro (wedi'u llenwi gan staff o boteli mwy); mae'n ymddangos bod yn well gan y plant yfed o gwpanau ac mae mwy o laeth bellach yn cael ei yfed (nid yn cael ei wastraffu).



Darlun: Llaeth wedi'i weini mewn cwpanau amldro

Mentrau cyfredol

Mae camau gweithredu ac arsylwadau ehangach sy'n gysylltiedig â lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu fel a ganlyn:

- Mae awgrymiadau gweledol syml (lliwiau a lluniau cyson) yn bwysig wrth gyfleu gwybodaeth ailgylchu
- Roedd mwy o wahanu ailgylchu wedi ysgogi staff i wirio beth y gellir ac na ellir ei ailgylchu, e.e. ceisio eglurder ar rai o'r ffrydiau gwastraff mwy heriol megis tywelion papur a ffyn glud.

Darlun: Biniau ailgylchu dosbarth

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU

THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o fyw

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle, anfonwch e-bost atom CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk

Y Busnes o Ailgylchu Cymru